Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Senedd Ymchwil**

# **Crynodeb o'r Bil:** Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru)



www.cynulliad.cymru/ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol: **www.cynulliad.cymru/ymchwil**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 7390**
E-bost: **Joe.Champion@cynulliad.cymru**
Twitter: **@SeneddResearch**
Blog: **SeneddYmchwil.blog**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Senedd Ymchwil**

# **Crynodeb o'r Bil:** Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru)

**Awdur:** Joseph Champion
**Dyddiad:** Mai 2018
**Rhif yr ymholiad:** RS186144-1

Mae'r papur hwn yn cynnwys crynodeb o fil Llywodraeth Cymru, sef Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru). Mae'n cynnwys crynodeb o ddarpariaethau'r Bil, ac mae'n tynnu sylw at brif agweddau'r Bil ac at ddogfennau sy'n gysylltiedig ag ef. Mae hefyd yn cynnwys rhywfaint o gefndir polisi.

# Cynnwys

**1. Rhagarweiniad ........ 2**

Y cynnig gofal plant yng Nghymru ........ 2

Y cynnig gofal plant yn Lloegr ........ 4

**2. Trosolwg o'r Bil ........ 5**

Darpariaethau'r Bil ........ 6

**3. Dogfennau sy'n cyd-fynd â'r Bil ........ 8**

Y Memorandwm Esboniadol, Rhan 1 ........ 8

Y Memorandwm Esboniadol, Rhan 2 ........ 9

Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth ........ 11

**4. Proses graffu'r Cynulliad ar y Bil ........ 12**

Datganiad y Llywydd ........ 12

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ........ 12

Rhagor o waith craffu ........ 13

**5. Geirfa ........ 14**

Termau a ddefnyddir yn y Bil ........ 14

Ymadroddion a ddefnyddir yn y Bil ........ 14

Ymadroddion a ddefnyddir yn y Memorandwm Esboniadol ........ 15

Termau deddfwriaethol cyffredinol ........ 16

# 1. Rhagarweiniad

Ar 16 Ebrill 2018, cyflwynodd Huw Irranca-Davies AC, y Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant, y **Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru)** a Memorandwm Esboniadol. Yna gwnaeth y Gweinidog **ddatganiad llafar** yn y Cyfarfod Llawn ar 17 Ebrill 2018, yn esbonio fel a ganlyn:

> Bydd y Bil, er yn dechnegol ei natur, yn ei gwneud hi'n bosib i Lywodraeth Cymru sefydlu system genedlaethol i reoli ceisiadau ac i wneud y gwiriadau cymhwystra angenrheidiol ar gyfer y cynnig gofal plant yng Nghymru.

Hefyd, ar 17 Ebrill 2018, cyhoeddwyd Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth sydd i'w gwneud o dan y Bil hwn. Mae'r datganiad yn dweud ei fod yn

> amlinellu bwriad y polisi presennol ar gyfer yr isddeddfwriaeth y byddai Gweinidogion Cymru wedi'i galluogi i'w gwneud o dan ddarpariaethau'r Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) (y Bil) neu y byddai'n ofynnol iddynt ei gwneud.

## Y cynnig gofal plant yng Nghymru

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i ddarparu 30 awr o addysg gynnar a gofal plant am ddim i rieni sy'n gweithio sydd â phlant tair a phedair oed yng Nghymru am hyd at 48 wythnos y flwyddyn.

Gelwir hyn yn gynnig gofal plant (y Cynnig) ac roedd yn ymrwymiad ym maniffesto etholiad Llafur Cymru yn 2016 'Gyda'n Gilydd dros Gymru'. Maes o law, cafodd ei gynnwys yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru, **'Symud Cymru Ymlaen 2016-2021'**.

Ar hyn o bryd mae gan bob plentyn 3 a 4 oed (o'r tymor ar ôl eu pen-blwydd yn 3 oed) yr hawl i o leiaf 10 awr o addysg gynnar yr wythnos yn ystod y tymor am 39 wythnos y flwyddyn, **fel rhan o'r Cyfnod Sylfaen**. Bwriad y Cynnig yw adeiladu ar yr hawl gyffredinol hon. Mae'r Bil a'i Femorandwm Esboniadol yn ymwneud ag elfen gofal plant y Cynnig yn unig.

Dechreuodd Llywodraeth Cymru **dreialu'r cynnig ym mis Medi 2017**, gyda'r gofal plant ychwanegol yn cael ei gynnig, ar hyn o bryd, yn ardaloedd yr awdurdodau lleol a ganlyn:

- Cyngor Sir Ynys Môn;
- Cyngor Gwynedd;
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili;
- Cyngor Sir y Fflint;
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf;
- Cyngor Abertawe; a
- Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent.

Mae Llywodraeth Cymru yn talu £4.50 yr awr am bob plentyn i’r rhai sy'n darparu'r Cynnig, ac ni all darparwyr godi unrhyw 'ffioedd atodol' sy'n uwch na'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn eu talu. Fodd bynnag, mae gan ddarparwyr yr hawl i godi hyd at £7.50 y dydd ar rieni am fwyd (amcangyfrifir tri phryd y dydd am £2 y pryd a 2 fyrbryd am 75c y byrbryd). Hefyd, gall darparwyr godi tâl am weithgareddau a thrafnidiaeth, fel tripiau oddi ar y safle sy'n achosi costau ychwanegol.

Rhoddodd y Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant, Huw Irranca-Davies, yr Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil, **dystiolaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg** am y Cynnig ar 18 Ebrill 2018. Fel rhan o'r dystiolaeth honno, dywedodd:

> we have the confidence now that, with that learning going on from different pilot areas, we'll have the full roll-out by 2020.

Mae **Llywodraeth Cymru wedi dweud** mai'r gyllideb ar gyfer datblygu a darparu'r cynnig yw:

- £10 miliwn yn 2017-18;
- £25 miliwn yn 2018-19; a
- £45 miliwn yn 2019-20.

Mae Llywodraeth Cymru wedi amcangyfrif y bydd y cynnig, unwaith y caiff ei gyflwyno'n llawn, yn costio tua £100 miliwn y flwyddyn.

## Y cynnig gofal plant yn Lloegr

Yn Lloegr, mae gan bob plentyn tair a phedair oed hawl i 15 awr o ofal plant am ddim am gyfnod o 38 wythnos. Roedd **Deddf Gofal Plant 2016** Llywodraeth y DU yn estyn yr hawl i rieni sy'n gweithio gael cyfwerth â 30 awr o ofal plant am ddim dros 38 wythnos[1], **gan ddechrau ym mis Medi 2017**.

Er mwyn gallu manteisio ar yr hawl estynedig yn Lloegr, mae angen i rieni'r plentyn brofi eu hawl. Maent yn gwneud hyn trwy gael penderfyniad ynghylch eu cymhwystra gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi drwy wneud cais ar wefan **Gwasanaeth Gofal Plant Llywodraeth y DU**. Bydd rhieni cymwys yn cael cod cymhwystra i'w roi i'w darparwr gofal plant.

Ym mis Gorffennaf 2017, cyhoeddodd Llywodraeth y DU **'30 hours free childcare: early implementation evaluation',** a oedd yn cyfeirio at y canlynol:

- pa un a oes digon o leoedd ar gael;
- y defnydd a wna'r rhieni o'r hawl; a'r
- effeithiau ar y defnydd a wneir o ofal plant a gwaith rhieni.

[1] Mae **papur briffio Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin ar Ofal Plant** yn Lloegr yn egluro bod yr hawl estynedig yn gyfystyr â chyfanswm o 1140 awr o ofal plant am ddim y flwyddyn, a gymerir yn gyffredin fel 30 awr dros 38 wythnos, ond y gellir ei "ymestyn" drwy gymryd llai o oriau bob wythnos dros fwy o wythnosau.

# 2. Trosolwg o'r Bil

Yn ôl Memorandwm Esboniadol y Bil:

> Prif ddiben y Bil hwn yw cefnogi economi Cymru drwy helpu rhieni, mamau yn arbennig, i ddychwelyd i'r gwaith neu i gynyddu'r oriau y maent yn eu gweithio. Bydd hyn yn cynyddu maint y gweithlu a hefyd yn gwella cyflogadwyedd rhieni, mamau yn arbennig.
>
> Bydd y Bil hefyd yn cefnogi nifer o ddibenion ychwanegol a fydd yn cynnwys cynyddu'r dewis o gyflogaeth sydd ar gael i rieni, yn arbennig i famau, a gwella llesiant cymdeithasol plant a rhieni. Bydd hyn yn ei dro yn arwain at wella ansawdd bywyd y teulu a phrofiadau plentyndod a ddaw o gael mwy o incwm gwario…
>
> Canlyniad hyn fydd un system gyson a chenedlaethol ar-lein ar gyfer ymgeisio a gwirio cymhwystra y bydd modd i ymgeiswyr ei defnyddio i wneud cais am gyllid gofal plant ar gyfer eu plentyn, a llinell ffôn i'r rheini nad ydynt yn gallu defnyddio'r system ar-lein.

Mae'r Bil yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddarparu cyllid ar gyfer gofal plant i blant cymhwysol rhieni sy'n gweithio ac i wneud rheoliadau ar y trefniadau ar gyfer gweinyddu a gweithredu cyllid o'r fath.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud, er mwyn cyflawni'r nodau hyn, fod y Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau:

- i ragnodi'r amodau y bydd yn rhaid eu bodloni i blentyn gael ei ystyried yn gymwys am gyllid (hynny yw, i'w ystyried yn "blentyn cymhwysol"), gan gynnwys unrhyw ddatganiadau y bydd yn rhaid i riant plentyn eu gwneud ac unrhyw amodau y bydd yn rhaid iddo'u bodloni;
- i wneud darpariaeth yn ei gwneud yn ofynnol i rieni ddarparu gwybodaeth sy'n berthnasol i'w cais am gyllid gofal plant a gwneud trefniadau i osod cosbau ariannol pan ddarperir gwybodaeth anwir neu gamarweiniol;
- i wneud darpariaeth a fydd yn caniatáu i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi, ac i ganiatáu neu ei gwneud yn ofynnol i adrannau Llywodraeth y DU, Gweinidogion y Goron ac awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth gymhwysol i Weinidogion Cymru neu i berson sy'n darparu

gwasanaethau i Weinidogion Cymru at ddibenion gweinyddu'r cynllun; ac

- i ragnodi manylion y trefniadau ar gyfer datgelu ymlaen wybodaeth gymhwysol a chreu troseddau mewn cysylltiad â datgelu ymlaen wybodaeth sy'n ymwneud â pherson penodol.

## Darpariaethau'r Bil

Mae'r **Bil fel y'i cyflwynwyd** yn weddol fyr, gydag un rhan yn cynnwys 13 adran mewn saith tudalen. Mae crynodeb o'r adrannau hynny isod.

Mae **adran 1** yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i ddarparu cyllid i unrhyw berson er mwyn sicrhau gofal plant ar gyfer 'plant cymhwysol rhieni sy'n gweithio'. Mae hefyd yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau a fydd yn pennu'r telerau ar gyfer y rhai sy'n gymwys i gael gofal plant wedi'i gyllido.

Mae **adran 2** yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n nodi'r trefniant ar gyfer gweinyddu a gweithredu'r cynllun cyllido. Mae adran 2 yn drosfwaol ac yn ymwneud â'r rheoliadau sydd i'w gwneud o dan adrannau 3 i 7.

Mae **adran 3** yn darparu y caiff unrhyw reoliadau (a wneir o dan adran 2) ei gwneud yn ofynnol i rieni sy'n ymgeisio am ofal plant wedi'i gyllido, ddarparu'r wybodaeth angenrheidiol er mwyn prosesu'r cais. Mae hefyd yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru osod cosb o hyd at £3000 ar unrhyw ymgeiswyr sy'n darparu 'gwybodaeth anwir neu gamarweiniol' fel rhan o'u cais am ofal plant am ddim.

Mae **adran 4** o'r Ddeddf yn pennu y caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau (y caniateir iddynt gael eu gwneud o dan adran 2) wneud darpariaeth ynghylch rhannu gwybodaeth 'gymhwysol' â Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi, un o Weinidogion y Goron, adran o lywodraeth y DU neu awdurdod lleol. Rhaid i Weinidogion Cymru bennu'r hyn sy'n "wybodaeth gymhwysol" at ddibenion yr adran hon ond ni chaniateir iddynt ddefnyddio'r pŵer hwn ond er mwyn pennu gwybodaeth sy'n ofynnol i benderfynu ar gymhwystra i gael cyllid o dan adran 1. Mewn rhai amgylchiadau, bydd angen i'r rheoliadau gael cydsyniad Gweinidog priodol y Goron.

Mae **adran 5** yn galluogi rheoliadau (y caniateir eu gwneud o dan adran 2) i wneud darpariaeth ynghylch datgelu ymlaen wybodaeth. Mae hefyd yn galluogi i ddarpariaeth gael ei gwneud ar gyfer troseddau mewn cysylltiad â datgelu ymlaen heb awdurdod wybodaeth sydd wedi cael ei rhannu at ddibenion gwneud penderfyniad am gymhwystra person i gael gofal plant a gyllidir.

Mae **adran 6** yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth am adolygiadau ac apelau (y Tribiwnlys Haen Gyntaf ar hyn o bryd) yn achos rhieni sy'n anghytuno â'r penderfyniad am eu cymhwystra neu pan fyddant wedi cael cosb o dan adran 3.

Mae **adran 7** yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru osod rhwymedigaethau ar Awdurdodau Lleol mewn perthynas â darparu cyllid, fel y nodir yn adran 1.

Mae **adran 8** yn gwneud diwygiad canlyniadol i **adran 18 (Cyfrinachedd)** o ***Ddeddf y Comisiynwyr Cyllid a Thollau 2005***.

Mae **adran 9** yn diffinio "awdurdod lleol" at ddibenion y Bil.

Mae **adran 10** yn rhoi i Weinidogion Cymru bŵer i amrywio uchafswm y gosb ariannol a bennir yn adran 3 am ddarparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol.

Mae **adran 11** yn darparu bod unrhyw reoliadau o dan y Ddeddf i gael eu gwneud drwy ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol.

Mae **adran 12** yn darparu bod adrannau 12 ac 13 o'r Bil yn dod i rym ddiwrnod ar ôl i'r Ddeddf gael Cydsyniad Brenhinol. Mae pob darpariaeth arall yn dod i rym drwy Orchymyn.

Mae **adran 13** yn datgan mai enw byr y Ddeddf fydd *Deddf Cyllido Gofal Plant (Cymru) 2018*.

Mae Nodiadau Esboniadol y Bil i'w cael yn Atodiad 1 (tudalen 66) o'r Memorandwm Esboniadol.

# 3. Dogfennau sy'n cyd-fynd â'r Bil

Mae dwy ddogfen yn cyd-fynd â'r Bil:

- y Memorandwm Esboniadol (sy'n cynnwys yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol); a
- Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth sydd i'w gwneud o dan y Bil.

Mae Llywodraeth Cymru, yn ei Datganiad o Fwriad y Polisi, wedi sôn y bydd Cynllun Gweinyddol yn cael ei ddatblygu a fydd 'yn esbonio beth y gall plentyn cymwys ei gael ac ym mhle y caiff y gofal plant a ariennir a phwy fydd yn ei ddarparu'. Nid oes amserlen ar gyfer rhoi'r Cynllun ar waith, ond dywed Llywodraeth Cymru y bydd y cynllun yn cael ei gynorthwyo gan y 'gwersi sy'n cael eu dysgu o weithredu'r Cynllun yn gynnar'.

Yn ystod tystiolaeth y Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant i'r Pwyllgor Plant Pobl Ifanc ac Addysg ar 18 Ebrill 2018, cyfeiriodd at ddogfen berthnasol ychwanegol. Dywedodd y bydd gwerthusiad o'r flwyddyn gyntaf o weithredu'r cynnig gofal plant yn gynnar yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2018.

## Y Memorandwm Esboniadol, Rhan 1

Mae **Memorandwm Esboniadol y Bil** (y Memorandwm) yn 117 tudalen ac mae iddo ddwy ran ac 8 atodiad. Rhan 1 yw'r Memorandwm Esboniadol, ac mae'n cynnwys:

- asesiad Llywodraeth Cymru o gymhwysedd deddfwriaethol perthnasol y Cynulliad;
- trosolwg o ddiben y Bil a'r effaith y bwriedir iddo'i chael; a
- throsolwg o'r gwaith ymgynghori a wnaed gan Lywodraeth Cymru wrth lunio'r Bil, a'r polisi ehangach sy'n sail iddo.

Mae adrannau 3.10-3.13 o Ran 1 yn disgrifio'r meini prawf cymhwystra ar gyfer y Cynnig y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei gyflwyno. Yn gyffredinol, y meini prawf yw y bydd y Cynnig ar gael o'r tymor ar ôl pen-blwydd y plentyn yn dair oed hyd at y mis Medi ar ôl ei ben-blwydd yn bedair oed, os yw rhiant/rhieni'r plentyn:

- yn ennill, ar gyfartaledd, isafswm wythnosol sy'n cyfateb i 16 awr ar yr isafswm cyflog cenedlaethol neu'r cyflog byw cenedlaethol dros gyfnod o dri mis; a
- heb fod yn ennill mwy na £100,000 y flwyddyn (gros).

Mae eithriadau i riant/rhieni sydd i ffwrdd o'r gweithle dros dro ar absenoldeb rhiant, mamolaeth, tadolaeth neu fabwysiadu statudol, neu sy'n sâl, neu lle mae un rhiant yn gweithio a'r llall yn cael budd-daliadau penodol neu'n ysgwyddo cyfrifoldebau gofalu sylweddol.

Bydd unrhyw reoliadau a wneir o dan y Bil yn destun y weithdrefn gadarnhaol.

## Y Memorandwm Esboniadol, Rhan 2

Mae Rhan 2 o'r Memorandwm yn cynnwys yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn pennu'r pedwar opsiwn a ganlyn, ynghyd â gwerthusiad Llywodraeth Cymru o bob un, ar gyfer gweinyddu'r gwiriadau cymhwystra ar gyfer y Cynnig:

- Awdurdodau Lleol yn derbyn ceisiadau ac yn gwirio cymhwystra (cyfeirir at hyn yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol fel yr opsiwn "gwneud dim", gan mai dyma'r opsiwn y disgwylir ei roi ar waith yn ddiofyn oni chaiff unrhyw ddeddfwriaeth ei chyflwyno);
- Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) yn derbyn ceisiadau ac yn cynnal gwiriadau cymhwystra;
- Llywodraeth Cymru i dderbyn ceisiadau a gwirio cymhwystra; a
- pharti wedi'i gontractio yn derbyn ceisiadau ac yn gwirio cymhwystra; yn cynnwys yr opsiwn o recriwtio un awdurdod i gynnal y gwiriadau hyn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dewis opsiwn 2, sef Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) yn derbyn ceisiadau ac yn cynnal gwiriadau cymhwystra, fel sy'n digwydd eisoes ar gyfer y rhaglen yn Lloegr. Mae Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif y bydd yr opsiwn hwn yn costio £9,118,000 rhwng 2019/20 a 2024/25, ac y bydd y costau blynyddol tua £1.2 miliwn. Costau gweinyddol y cynllun yw'r rhain ac nid y gost o ddarparu'r Cynnig ei hun.

Mae costau'r opsiynau eraill, fel y'u hamcangyfrifwyd, yn amrywio o £15.5 miliwn i £26.8 miliwn yn ystod yr un cyfnod. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn dadlau y bydd yr opsiwn Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn lleihau'r risg o dwyll a materion diogelwch data oherwydd bod systemau o'r fath eisoes ar waith.

Yn Adran 9 o Ran 2 mae crynodeb o'r Asesiadau Effaith penodol niferus a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru wrth ddatblygu'r Bil. Barnwyd fod y mwyafrif yn amherthnasol, megis asesiadau ar Fioamrywiaeth, Cymorth Gwladwriaethol a Newid yn yr Hinsawdd. Cafodd pedwar Asesiad Effaith llawn eu paratoi:

- Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb;
- Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant;
- Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg; ac
- Asesiad o'r Effaith ar y System Gyfiawnder.

Mae crynodeb o'r rhain yn y Memorandwm ac ar wefan **Llywodraeth Cymru**.

Yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol sonnir y bydd adolygiad cenedlaethol o'r Cynnig Gofal Plant, ac y bydd adroddiad interim yn cael ei gyflwyno ym mis Rhagfyr 2020 ac adroddiad cyfunol terfynol yn ystod haf 2023.

Yn Atodiad 1 o'r Memorandwm mae Nodiadau Esboniadol ar gyfer y Bil, yn Atodiad 2 mae Mynegai o Ofynion y Rheolau Sefydlog mewn perthynas â'r Bil, ac yn Atodiad 3 mae Atodlen o Ddiwygiadau y bydd y Bil yn eu gwneud i'r *Ddeddf Comisiynwyr Cyllid a Thollau 2005*. Mae Atodiadau 4 – 8 yn ymwneud â'r broses modelu costau sydd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

## Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth

Diben y Datganiad o Fwriad y Polisi yw:

> amlinellu bwriad y polisi presennol ar gyfer yr isddeddfwriaeth y byddai Gweinidogion Cymru wedi'i galluogi i'w gwneud o dan ddarpariaethau'r Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) (y Bil) neu y byddai'n ofynnol iddynt ei gwneud. Fe'i lluniwyd i helpu pwyllgorau wrth graffu ar y Bil...

Mae'n gwneud hyn trwy ddarparu crynodeb o'r rheoliadau y mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn bwriadu eu cyflwyno drwy ddefnyddio'r pwerau a roddir o dan adrannau 1, 2 a 10 o'r Bil. Yn y Datganiad, nodir hefyd

> bydd Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi cynllun gweinyddol a fydd yn disgrifio sut a pryd y gellir defnyddio'r oriau gofal plant a phwy fydd yn gallu cyflenwi'r gofal plant at ddibenion y cynllun.

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r cynllun hwn gael ei seilio ar ei chanllawiau presennol anstatudol, **Canllawiau i Awdurdodau Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar**.

Fodd bynnag, nid yw'r Llywodraeth bresennol, nac unrhyw lywodraeth yn y dyfodol, yn ymrwymedig yn gyfreithiol i weithredu yn unol â'r Datganiad o Fwriad y Polisi. Nid yw'r Bil yn gwneud darpariaeth i'r cynllun gweinyddol gael effaith gyfreithiol, felly nid yw ei statws presennol yn glir.

# 4. Proses graffu'r Cynulliad ar y Bil

## Datganiad y Llywydd

Yn ei datganiad, a gyhoeddwyd ar 16 Ebrill 2018 i gyd-fynd â'r Bil, roedd y Llywydd, Elin Jones AC, o'r farn, er y byddai'r 'rhan fwyaf' o ddarpariaethau'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, roedd rhai na fyddai o fewn cymhwysedd. Mae'r Llywydd hefyd yn datgan fel a ganlyn:

> Ni fyddai adran 4(2), adran 4(5)(b), (c) a (d) nac adran 5(3) o fewn cymhwysedd. Byddai angen cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol er mwyn i'r darpariaethau hyn fod o fewn cymhwysedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac nid yw'r cydsyniad angenrheidiol hwnnw wedi'i sicrhau ar hyn o bryd.

Felly, bydd yn rhaid i Lywodraeth Cymru gael y cydsyniad perthnasol er mwyn i'r darpariaethau fod o fewn cymhwysedd y Cynulliad. Mae dehongliad Llywodraeth Cymru o gymhwysedd y Cynulliad mewn perthynas â'r Bil hwn i'w weld ym Mhennod 2 o Ran 1 o'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Bil.

Mae'r Llywydd hefyd wedi dweud y bydd angen penderfyniad ariannol ar gyfer y Bil hwn. Mae rhagor o wybodaeth am benderfyniadau ariannol yn adran 3 o'r o'r **Canllaw i Gyfnodau Biliau a Deddfau Cyhoeddus**.

## Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Mae Pwyllgor Busnes y Cynulliad wedi cyfeirio'r Bil at y **Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**, a phennwyd 6 Gorffennaf 2018 iddo gyflwyno'i adroddiad ar egwyddorion cyffredinol y Bil (proses graffu Cyfnod 1).

Er mwyn cael gwybodaeth ar gyfer ei adroddiad, lansiodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ymgynghoriad dros bedair wythnos ar 20 Ebrill 2018 (a ddaeth i ben ar 18 Mai 2018) i gael barn rhanddeiliaid a'r cyhoedd am y Bil. Bydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg hefyd yn clywed tystiolaeth lafar gan amryw randdeiliaid yn ystod mis Mai a mis Mehefin. Bydd y tystion yn cynnwys y Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant, y mae disgwyl iddo roi tystiolaeth ar y Bil ar 16 Mai 2018 ac 14 Mehefin 2018.

Mae rhagor o wybodaeth am broses graffu'r Pwyllgor yng Nghyfnod 1 ar **dudalen y Bil ar y we**.

## Rhagor o waith craffu

Hefyd, bydd y **Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol** a'r **Pwyllgor Cyllid** yn ystyried y Bil ac yn craffu arno, a bydd y ddau Bwyllgor hyn hefyd yn llunio adroddiadau. Mae disgwyl i'r Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant roi tystiolaeth i'r **Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar 14 Mai 2018** ac i'r Pwyllgor Cyllid ar 13 Mehefin 2018.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylid cwblhau trafodion Cyfnod 2 erbyn 12 Hydref 2018, os bydd y Bil yn symud ymlaen ar ôl proses graffu Cyfnod 1.

# 5. Geirfa

Mae'r fersiwn Gymraeg ddiweddaraf o'r **Bil ar gael yma**.

## Termau a ddefnyddir yn y Bil

- Childcare – gofal plant
- Funding – cyllid
- Provision – darpariaeth
- Regulation – rheoliad
- Statutory Instrument – Offeryn Statudol

## Ymadroddion a ddefnyddir yn y Bil

- Confer powers – rhoi pwerau
- Consequential amendment – diwygiad canlyniadol
- Determinations as to eligibility – penderfyniadau ynghylch cymhwystra
- Eligibility for funding – cymhwystra i gael cyllid
- False or misleading information – gwybodaeth anwir neu gamarweiniol
- Financial penalty – cosb ariannol
- First-tier Tribunal – Tribiwnlys Haen Gyntaf
- Commissioners for Her Majesty's Revenue and Customs – Comisiynwyr Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi Impose obligations – gosod rhwymedigaethau
- Onward disclosure – datgelu ymlaen
- Onward disclosure of information – datgelu gwybodaeth ymlaen
- Parental responsibility – cyfrifoldeb rhieni
- Provision of childcare – darparu gofal plant
- Qualifying children – plant cymhwysol

- Qualifying information – gwybodaeth gymhwysol
- Qualifying parents – rhieni cymhwysol
- Specified in the regulations – a bennir mewn rheoliadau
- Supplementary provision – darpariaeth atodol
- Treasury – y Trysorlys
- Working parents – rhieni sy'n gweithio

## Ymadroddion a ddefnyddir yn y Memorandwm Esboniadol

- Administrative scheme – cynllun gweinyddu
- Carers allowance – lwfans gofalwyr
- Childcare Offer – y Cynnig Gofal Plant
- Childcare Offer Stakeholder Reference Group – Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid y Cynnig Gofal Plant
- Criminal sanction – cosb droseddol
- Disposable income – incwm gwario
- Dual-earning – ennill dau gyflog
- Early education and childcare – addysg gynnar a gofal plant
- Early Implementer Local Authorities (EILAs) – Awdurdodau Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar
- Employment and support allowance – lwfans cyflogaeth a chymorth
- Incapacity benefit – budd-dal analluogrwydd
- Kinship carers – gofalwyr sy'n berthnasau
- National minimum wage – isafswm cyflog cenedlaethol
- National living wage – cyflog byw cenedlaethol
- Severe disablement allowance – lwfans anabledd difrifol

- Statutory parental, maternity, paternity or adoption leave – absenoldeb rhianta, mamolaeth, tadolaeth neu fabwysiadu statudol
- Tax Free Childcare – gofal plant di-dreth
- Universal entitlement – hawl gyffredinol
- Workless household – aelwyd heb waith
- Zero hours contract – contract dim oriau

## Termau deddfwriaethol cyffredinol

- Consultation - ymgynghoriad
- Draft Bill – Bil drafft
- Explanatory Memorandum - Memorandwm Esboniadol
- Financial resolution – Penderfyniad ariannol
- General principles – Egwyddorion cyffredinol
- Guidance – Canllawiau
- Legislative competence – Cymhwysedd deddfwriaethol
- Legislative framework – fframwaith deddfwriaethol
- Member in charge (of the Bill) – Aelod sy'n gyfrifol (am y Bil)
- Minister of the Crown – Un o Weinidogion y Goron
- Ongoing costs – costau rheolaidd
- Pre-legislative scrutiny – craffu cyn y broses ddeddfu
- Regulatory Impact Assessment (RIA) - Asesiad Effaith Rheoleiddiol
- Royal Assent – Cydsyniad Brenhinol
- Short title – Enw byr
- Stage 1 – Cyfnod 1
- Subordinate legislation – is-ddeddfwriaeth
- Transitional costs – costau pontio